WG35.5.192

# GALAR GAN,

NEU GOFFADWRIAETH AM

# MR. THOMAS THOMAS,

O ABERDUAR, SIR GAERFYRDDIN,

*Yr hwn a fu farw y 12fed o fis Mawrth diweddaf, yn 67 Oed.*

---

1 BETH yw'r gwisgoedd dû o alar,
Sy'n llanw'n daear nawr o'r bron,
Myrdd o ddagrau yn golchi'i gruddiau,
A'r holl wynebau yn brudd o'i bron;
A ddaeth brenin dychryniadau,
A'i fwa a'i saethau mewn i'n bro,
A gadd rhyw un oedd ddefnyddiol,
Ei daro'n farwol lawr i'r gro.

2 Do, fe ddarfu i angau ddrygu,
Meddygwr da i gryf a gwan,
*Doctor* Thomas Aberduar,
Dros glaf a chlwyfus gwnaeth ei ran;
'Roedd e'n ffyddlon gydâ'i foddion,
Lle b'ai twymynon aua' a haf,
A'i'n hanner nos y tywydd oera,
O'i wely'n glau doi at y claf.

3 Llawer gwraig ar fin marwolaeth,
Heb un gobaith am wellhau,

X205315749X
6411

Ereill wedi eu rhoddi fynu,
Gan dd'weud nas gellid eu rhyddhau;
Corph yn gwywo, *sense* yn *dotio*,
Ei *ffryns* yn wylo uwch ei phen,
Dim ond disgwyl am y funud,
Ola'i bywyd dd'od i ben.

4 Ond yn nghanol cyfyngderau,
Poen, gofidiau, a chalon brudd,
*Doctor* Thomas pan y deuai,
Yn glau o'i rhwymau rhoi bwy'n rhydd;
O mor hyfryd oedd cael bywyd,
Trwy allu dyn ag 'wyllys Duw,
Cannoedd ddarfu iddo gadw,
Dros ddyddiau'n hir ar dir y byw.

5 Gwyr a gwragedd, meibion merched,
Sy'n aml 'nawr mewn bryn a bro,
Yn d'weud, tra caffont rodio'r ddaear,
'D aiff Aberduar byth o'i co';
Rhai a ddarfu iddo i *helpi*,
Pan oeddent wan mewn cyfyng awr,
Mae oi ei heyrn a'i *screws* i weled,
Ar eu pennau'n danbaid 'nawr.

6 Gwellodd filoedd rai o glwyfau,
Torrodd gliniau, a breichiau ffwrdd,
Yn anaml 'roedd e'n methu,
Gwella neb ddoi at ei fwrdd;
'Nawr mae rhei'ny fu e'n *helpi*,
Yn cwyno am dano o fôr i fôr,
A llif o ddagrau'n golchi eu gruddiau,
Waith clywed ei ro'i mewn daear o'r.

7 Fe a'n union at dylodion,
Rhai mwya' gwaelion yn ein gwlad,

Pan y clywai eu bod yn gorwedd,
  Yn eu gwely am gael gwellhad;
Ac fe roddai'i waith a'i foddion,
  I'r tylodion heb ddim tâl,
B'le wrth chwilio'r greadigaeth,
  Hyd *Bengal* mae ail e' i'w ga'l.

8 Ni cha'dd neb o fewn i'r dalaith,
  *Gostau* cyfraith ganddo erio'd,
Ac ni chlywais neb yn achwyn,
  Fod *biliau* byth rhy fawr yn d'od;
Saith parottach oedd i fadden,
  Nag i wasgu cryf na gwan,
Tymmer aeddfwyn oedd yn wastad,
  Dros bawb yn barod wneud ei ran.

9 Fe fydd etto fwy o gwyno,
  A galaru yn ein gwlad,
Pan b'o'r dynion wedi clwyfo,
  Sydd heddyw'n rhodio ar eu tra'd;
Pan caffo rhai sy'n iach eu clwyfo,
  Ar fyr daw rhei'ny wel'd ei werth,
Byth ni welir eisiau'r llwyni,
  Tra f'ont yn tyfu yn y berth.

10 Nid oes tŷ o fewn i'r dalaith,
  Trwy'r gym'dogaeth yma a thraw,
Na fu rhyw rai o'r trigolion,
  Ar dro'n cael moddion dan ei law;
Do'i ugeiniau hwyr a borau,
  Trwy'r ffyrdd a'r caeau at ei dŷ,
Ac fe fu'n llwyddiannus hynod,
  Nes cael dyrnod angau dû.

11 Os i'r llwch 'raeth *Doctor* Thomas,
  Maes o sŵn y claf a'u clyw,

Cym'rwch gyssur bawb yn gysson,
Tra bo'i Feibion yma'n byw,
Gall y rhei'ny wneud daioni,
Wedi eu dysgu gan eu Tad,
A bod o ryfedd les a rhinwedd,
A mawr ymgeledd yn ein gwlad.

12 Mi ddymuna i Dduw ro'i bendith,
I'w blant tra byddont yn y byd,
A thàn dy aden dros ei weddw,
A chadwi'n ddiogel ar bob pryd;
Tynna di hwy Arglwydd tirion,
Fel b'ont yn rhedeg ar dy ol,
Ac y caffont yn y diwedd,
Orphwysfa dawel yn dy gôl.

13 Yn Nghastell-newydd fe glafychodd,
Nid oedd yn drugain mlwydd a saith,
Ac fe ffaelodd ddyfod adrau,
Yno cyr'ddai ben ei daith;
Deuddeg dydd o Fawrth diweddaf,
Ca'dd ei alw oddi yma'i dre';
'Rwi'n gobeithio bod ei enaid,
Heddyw'n llawen mewn gwell lle.

DIWEDD.

---

*Evan Jones, Argraffydd, Caerfyrddin.*—1826.

W<sup></sup>m Thomas
parc y clochydd